

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

TH Beedle  
G Thomas

RJ Collins  
JE Williams

MJ Kearn

AA Pucella

Swyddogion:

Nick Dennison	Cyfreithiwr
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Sharon Jones	Cynorthwy-ydd Trwyddedu
Kevin Stephens	Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd
Yvonne Witchell	Rheolydd Tîm Trwyddedu

267. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

268. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15/09/2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod manwl gywir.

269. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr y Grŵp, y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio, a'r diben oedd gofyn i'r is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hurio preifat.

Gwnaed y cais gan Andrea Bovingdon o Ogledd Corneli (a oedd yn bresennol yn y cyfarfod) i drwyddedu Volvo V50 SE, rhif cofrestru BO12 VPO, fel cerbyd hurio preifat i eistedd 4 person.

Roedd y cerbyd yn eiddo dan berchnogaeth yn barod a chafodd ei gofrestru gyntaf yn y DVLA ar 1 Mawrth 2012, cadarnhaodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu.

Ni ellir cynnwys y cais o fewn y Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid yw'r cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth ar gyfer 23/05/2013 gyda'r milltiroedd wedi'u cofnodi ar 11,948; 14/05/2014 gyda milltiroedd yn 24,784; 10/07/2015 gyda milltiroedd yn 34,523; 05/08/2016 gyda milltiroedd yn 42,730; 04/08/2017 gyda milltiroedd yn 50,918; 25/07/2018 gyda milltiroedd ar 59,310 a 01/08/2019 gyda milltiroedd yn 67,353. Cyflwynwyd MOT cyfredol dyddiedig 20/08/2020 gyda'r milltiroedd wedi'u cofnodi ar 71,797.

Ar 18 Medi 2020, archwiliodd Swyddog Gorfodi y cerbyd a gwelwyd bod y cerbyd mewn cyflwr da. Ceir Ffurflen Asesu Cerbydau yn Atodiad A i'r adroddiad. Ar adeg yr archwiliad, cofnodwyd y milltiroedd ar 71,859.

Ymdeolodd yr Aelodau i ystyried y cais ymhellach, ac yn dilyn hyn cafwyd

**PENDERFYNIAD:** Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais i gofrestru B012 VPO fel Cerbyd Hurio Preifat.

Nododd yr Aelodau nad yw'n cael ei gynnwys o fewn polisi 2.1 o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad.

Nododd yr Aelodau y gellid llacio'r polisi, fel y nodir ym mharagraff 2.2 o'r polisi, os yw'r cerbyd o ansawdd eithriadol y tu mewn a'r tu allan, a safonau eithriadol diogelwch. O'r herwydd, rhoddodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

270. **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982, CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW, THE PRIVATE SIOP, 72 Ffordd PEN-Y-BONT AR OGWR, ABERCYNFFIG**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Tîm – Trwyddedu, ynghylch cais a dderbyniwyd gan Darker Enterprises Limited ar gyfer adnewyddu'r Drwydded Sefydliad Rhyw mewn perthynas â'r safle uchod, a roddwyd gerbron yr Is-bwyllgor i'w ystyried, gan nad yw pwerau wedi'u dirprwyo o dan y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.

Mae'r drwydded bresennol yn ddarostyngedig i amodau safonol y Cyngor ac i'r amodau arbennig sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad. Mae'r oriau masnachu rhwng 0930 a 2000 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 1000 i 1600 ar ddydd Sul.

Ni chafwyd unrhyw argymhellion gan yr ymgynghorwyr statudol i amrywio'r safon bresennol na'r amodau arbennig sydd mewn grym, ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau gan y cyhoedd mewn perthynas â'r cais.

Dywedodd Rheolwr y Tîm – Trwyddedu fod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol i hysbysebu'r cais a dangoswyd manylion y rhain yn yr adroddiad, ynghyd â gofynion a chanllawiau cysylltiedig eraill.

**PENDERFYNIAD:** Bod yr Is-bwyllgor wedi cytuno i adnewyddu'r Drwydded uchod, yn amodol ar y telerau ac amodau presennol.

271. **EITEMAU BRYD**

Dim.